Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Mr Jim Bennett
Pennaeth
Coleg Gwent
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1XJ

Awst 2014

Annwyl Mr Bennett

**Adroddiad Estyn ar Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ar gyfer Coleg Gwent**

Yn dilyn yr ymweliad â'ch sefydliad ar 10 Gorffennaf 2014 ynghylch yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad, mae'r llythyr hwn yn adroddiad blynyddol sydd wedi'i seilio ar ddeilliannau'r ymweliad hwnnw. Cyhoeddir y llythyr ar wefan Estyn.

Bu Rachael Bubalo AEM a Gill Sims AEM yn arfarnu perfformiad presennol y sefydliad ac yn adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion sy'n deillio o arolygiadau blaenorol. Ymweliad byr oedd hwn a bydd arolygwyr yn dychwelyd ar gyfer ymweliad arall yn nhymor yr hydref 2014.

Cynhaliodd yr arolygwyr drafodaethau gyda'r pennaeth ac uwch reolwyr, tiwtoriaid, dysgwyr ac aelodau o'r corff llywodraethol. Buont yn craffu ar ddogfennau, gan gynnwys tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r argymhellion arolygu blaenorol. Hefyd, buont yn ystyried ansawdd yr addysgu a'r dysgu trwy deithiau dysgu a chraffu ar broses arsylwi'r darparwr.

Ar ddiwedd yr ymweliad, adroddodd Rachael Bubalo AEM a Gill Sims AEM eu canfyddiadau i bennaeth a dirprwy bennaeth y sefydliad.

**Canlyniad yr ymweliad gan yr arolygwyr cyswllt**

**1 Deilliannau a safonau**

Mae holl ddata ar lwyddiant cyrsiau yn dangos bod Coleg Gwent wedi aros ymhlith chwarter uchaf yr holl golegau yng Nghymru dros y ddwy flynedd diwethaf. Fe wnaeth tueddiadau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant oll godi un neu ddau bwynt canran rhwng 2011-2012 a 2012-2013. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn y coleg yn cwblhau eu rhaglenni dysgu yn llwyddiannus. Mae 95% o'r ymrestriadau yn y coleg yn ennill cymhwyster a'r coleg oedd y gorau yn y sector ar gyfer y dangosydd hwn yn 2011-2012 ac yn 2012-2013.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW
Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446 • Ffacs/ Fax 02920 446448
Ebost/Email enquiries@estyn.gov.uk • http://www.estyn.gov.uk

Mae 89% o holl ymrestriadau'r coleg yn rhai ar gyfer cyrsiau hir. Mae cyfraddau llwyddo cyffredinol y rhain wedi gwella dau bwynt canran o 85% yn 2011-2012 i 87% yn 2012-2013 ac mae'r coleg wedi parhau ymhlith chwarter uchaf yr holl golegau yng Nghymru. Mae'r cyfraddau llwyddo yn y celfyddydau perfformio a busnes, gweinyddu a'r gyfraith yn gyson uchel, ac yn bum pwynt canran uwchlaw cymharydd cenedlaethol 2012-2013. Mae'r cyfraddau llwyddo mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu naw pwynt canran uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol ar gyfer 2011-2012 a 2012-2013. Fe wnaeth y cyfraddau llwyddo mewn gwyddoniaeth a mathemateg wella pedwar pwynt canran rhwng 2011-2012 a 2012-2013 ac fe wnaeth trin gwallt a harddwch, lletygarwch ac arlwyo, a hamdden, teithio a thwristiaeth oll wella un neu ddau bwynt canran dros y ddwy flynedd ac maent yn parhau uwchlaw cyfartaleddau'r sector. Fodd bynnag, mae cyfraddau llwyddo mewn peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu, ac adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig wedi disgyn dau a phum pwynt canran yn y drefn honno dros y ddwy flynedd diwethaf ac wedi disgyn ymhellach islaw'r cymaryddion cenedlaethol fel eu bod yn y chwarter isaf ar gyfer y pynciau hynny o blith yr holl golegau yng Nghymru. At ei gilydd, mae cwblhau tua hanner y meysydd sector pwnc yng Ngholeg Gwent yn llwyddiannus yn ei osod yn chwarter uchaf yr holl golegau yng Nghymru.

Mae cyfraddau cwblhau cyrsiau byr, cyrhaeddiad a llwyddiant yn y coleg tua'r cyfartaleddau cenedlaethol uchel iawn. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cwblhau eu rhaglenni dysgu ac mae 96% o ymrestriadau'n arwain at ennill cymhwyster.

## 2 Medrau Hanfodol

Mae data'n dangos bod nifer y dysgwyr sy'n cyflawni cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn cynyddu a bod mwy o ddysgwyr yn cyflawni'r lefelau uwch. Mae gan y coleg bolisi cynhwysfawr ar fedrau sy'n cyflwyno'r disgwyliadau a'r atebolrwydd am ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn glir. Mae'r holl ddysgwyr yn cael asesiad diagnostig o'u medrau ar ddechrau eu cwrs a defnyddir y wybodaeth yn dda gan gynghorwyr cymorth dysgu i osod targedau medrau penodol iawn sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae gan y coleg strategaeth effeithiol i gefnogi dysgwyr ac mae hyn wedi cyfrannu at wella deilliannau dysgwyr. Caiff presenoldeb dysgwyr ar raglenni cymorth ei fonitro'n ofalus ac mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n cael eu nodi i gael cymorth yn mynychu sesiynau'n rheolaidd.

Mae'r coleg yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol am y cynnydd a wna dysgwyr yn datblygu eu medrau hanfodol. Defnyddir y wybodaeth hon yn effeithiol i gymharu cynnydd dysgwyr sy'n cael cymorth â'r rhai nad ydynt yn cael cymorth ac i fesur cynnydd dysgwyr o ardaloedd o ddifreintedd.

Ar y cyd, mae'r coleg wedi datblygu pecynnau cymorth llythrennedd a rhifedd defnyddiol mewn partneriaeth â cholegau eraill ac mae'r rhain yn rhoi arweiniad defnyddiol i staff a dysgwyr ar ddatblygu medrau.

## 3 Addysgu ac asesu

Mae gan y coleg amrywiaeth drawiadol o strategaethau i wella addysgu a dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio chwe Mentor Addysgu a Dysgu a chynllun trylwyr o arsylwi gwersi sy'n cynnwys tua 60 o arsylwyr hyfforddedig sydd wedi cael achrediad mewnol yn erbyn cyfres o safonau cytûn. Mae hyn yn gysylltiedig â chynllun rheoli perfformiad y coleg ac eir i'r afael â thanberfformio yn uniongyrchol. Yn 2013-2014, barnodd y coleg fod 81% o'i addysgu yn dda neu'n well. Lle y bo'r addysgu yn ddigonol yn unig, mae'r coleg yn rhoi camau gweithredu cadarn ar waith i wella arfer, sy'n cynnwys adolygu a chymorth dwys.

Mae'r coleg wedi datblygu menter lwyddiannus, 'Arwain Dysgu', sy'n annog yr holl staff i chwarae rhan mewn gwella ansawdd addysgu a dysgu. Mae'r coleg yn defnyddio cronfeydd gwella ansawdd yn dda i gefnogi amrywiaeth o fentrau, gan gynnwys datblygu pecyn cymorth rhifedd a hybu cymunedau dysgu proffesiynol. Yn ogystal, mae'r coleg wedi cynhyrchu fideos o addysgu rhagorol sy'n ymestyn ac yn herio dysgwyr ac mae'r rhain ar gael i'r holl staff ar fewnrwyd y coleg.

Mae grŵp hirsefydledig o fentoriaid dysgu yn chwarae rôl ddefnyddiol yn modelu addysgu da ac yn cefnogi athrawon newydd ac amhrofiadol. Mae cynllun defnyddiol i arsylwi ar arfer cynorthwywyr cymorth dysgu ar waith yng nghanol cyfnod prawf.

Mae'r coleg yn mabwysiadu dull 'egwyddorion addysgu, dysgu ac asesu' ac mae hyn yn ysgogi gwelliannau ar draws y coleg.

## 4 Crynodeb o'r cynnydd o ran yr argymhellion a amlinellwyd yn adroddiad arolygu Coleg Gwent yn Ebrill 2012

Mae'r coleg wedi gwneud cynnydd da yn mynd i'r afael â'r holl argymhellion yn adroddiad 2012 Estyn. Mae wedi blaenoriaethau camau gweithredu'n dda yn ei drefniadau gwella ansawdd i sicrhau bod yr argymhellion hyn yn cael eu bodloni.

## 5 Arall

### Llais y dysgwr

Mae'r coleg yn ymgynghori'n dda â dysgwyr. Yn 2014, fe wnaeth 7,215 o ddysgwyr gymryd rhan yn arolwg Llais y Dysgwr, Cymru. Mae hyn yn cynrychioli rhyw chwarter o holl ddysgwyr y coleg. Dywedodd 80% o'r holl ddysgwyr yn yr arolwg fod y coleg yn dda neu'n dda iawn. Mae hyn fymryn yn well na chyfartaledd y sector. Dywedodd 90% fod eu cwrs yn well na'r disgwyl neu fel yr oeddent yn ei ddisgwyl, sydd hefyd uwchlaw cyfartaledd y sector.

Fe wnaeth y coleg berfformio'n dda mewn bron pob agwedd ar yr arolwg, yn enwedig mewn ymateb i'r addysgu. Dywedodd 46% o ddysgwyr yn yr arolwg fod eu haddysgu a'u hyfforddiant yn dda iawn yn gyffredinol ac, ar gyfer pob agwedd ar addysgu, fe wnaeth y coleg gael sgôr uwchlaw meincnodau'r sector.

Mae'r coleg yn talu sylw da i farn dysgwyr ac mae systemau i gasglu eu barn yn sefydledig. Mae'r systemau hyn yn cynnwys arolwg o ddysgwyr sy'n cael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn. Yn 2014, fe wnaeth 97% o ddysgwyr amser llawn gymryd rhan yn yr arolwg.

Mae'r coleg yn gweithredu'n gyflym ac yn effeithiol mewn ymateb i adborth dysgwyr ac mae'n monitro cynnydd y camau gweithredu'n dda. Mae system effeithiol o gynrychiolwyr dysgu campysau ac mae rhyw 500 o ddysgwyr yn cwblhau uned Agored sy'n eu helpu nhw i berfformio'u rôl yn effeithiol.

Mae'r coleg yn defnyddio adborth dysgwyr yn dda i lywio'i adroddiad hunanasesu ac mae cynrychiolwyr dysgwyr yn gwirio'r adroddiad terfynol.

Mewn ymateb i adborth gan ddysgwyr, fe wnaeth y coleg ddiwygiadau i'r Cynllun Dysgu Unigol Electronig. Mae'n hawdd i ddysgwyr fynd at y Pennaeth ac mae system 'galw'r bos' yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i ddelio â chwynion yn brydlon. Yn briodol, mae gan Fwrdd y Coleg lywodraethwr sydd â chyfrifoldeb am lais y dysgwr ac mae fforymau dysgwyr yn canolbwyntio'n gryf ar agweddau ar addysgu a dysgu. Mewn un enghraifft, fe wnaeth amgyffredion negyddol dysgwyr ynghylch addysgu mewn un ysgol arwain at newidiadau sylweddol a gwelliannau mewn ansawdd.

**Argymhellion**

A1 Parhau i wella cyfraddau llwyddiant yn y meysydd sector pwnc sydd wedi perfformio islaw cymaryddion cenedlaethol.

**Y camau nesaf**

Bydd eich Arolygwyr Cyswllt yn Estyn yn parhau i fonitro cynnydd cyffredinol trwy eu rôl gyswllt gyda'r sefydliad.

Yn gywir

**Lin Howells**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol